

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 29ain 2012 yn Ffestri Glanrafon. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (is-gadeirydd), Gwenda Evans, Iwan Griffiths, Eifion Davies, Alwyn Roberts, Adrian Williams a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Eilir Rowlands, Gethin Morris, Tina Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Meirion Owen, Ceidwad Chwarae Gwynedd a Cheri Jones, Swyddog Chwarae Gwynedd i drafod y cynllun 'Ceidwad Chwarae' a oedd am gychwyn yn ardal Llandderfel. Yn dilyn eu cyflwyniad cytunwyd y dylai'r swyddogion gysylltu ag Ysgol Ffridd y Llyn a'r papurau lleol i hysbysu'r cynllun. Diolchwyd i Meirion a Cheri am fynychu'r cyfarfod.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Toiledau cyhoeddus Llandderfel.

Adroddodd y clerch eu bod wedi derbyn e-bost yn egluro bod y grŵp cymunedol yn cael trafferthion ariannu'r prosiect ac roeddynt wedi cysylltu'n ôl gyda phwyllgor Neuadd Bro Derfel i ofyn am gymorth. Cytunwyd i aros am ymateb pwyllgor y neuadd cyn trafod y mater ymhellach.

Eglwys St. Mor a Deiniol, Llanfor.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y clerch wedi cysylltu â'r cyfreithwyr Guthrie Jones a Jones i drafod cynigion y Cyngor ynglŷn â'r hawl tramwy. Yn dilyn eu cyngor cytunwyd i ofyn tal am yr hawl dramwy a chyfraniad tuag at ei gynnal a'i gadw.

Cyfyngiad cyflymder ar y A494, Cefnddwysarn.

Roedd y clerch wedi derbyn gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd am baratoi dyluniad o arwyddion a marciau ffordd ychwanegol ar gyfer Cefnddwysarn.

Canolfan Zorbio, Sarnau

Roedd un o swyddogion Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r ganolfan ar ddau achlysur ac roedd yn cydymffurfio gyda'r safonau diogelwch a oedd yn ymwneud a safle o'r fath. Byddai'r swyddog yn cadw golwg ar y safle i sicrhau bod y safonau yma yn parhau.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yng Nghlwb Rygbi Dolgellau, 23/05/12

ii) Llythyr yn diolch i'r Cyngor am ail ymaelodi a ffurflen i anfon manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgorau Ardal Meirionnydd. Cytunwyd i beidio enwebu person penodol ond anfon cynrychiolydd os oedd angen pan fyddai'r Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

iii) Llythyr yn ein hysbysu bod Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2012 yn cael ei gynnal ym Mhontrhydfendigaid, 13/10/12.

b) Amrywiol

i) Cyngor Gwynedd – Gwahoddiad i 'Ddiwrnod Gwybodaeth i Oedolion 50+' yn Abermaw 24/05/12.

ii) Cymdeithas yr Iaith – Gwahoddiad i lansiad 'Cynghrair Cymunedau Cymru', 6/6/12.

- iii) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Gwahoddiad i gyfarfod yn Nolgellau, 30/5/12.
- iv) Cymdeithas Tai Clwyd - Llythyr yn gofyn i'r Cyngor hysbysu bod tŷ 2 lofft ar gael ym Maes y Priordy, Llandderfel.
- v) Parc Cenedlaethol Eryri – Gwahoddiad i ddiwrnod agored i ddysgu am waith y 'Gyfarwyddiaeth Rheoli Tir', 19/6/12.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C12/0587/04/CR – Newid defnydd capel i swyddfa ac ystafell arddangos. Capel Bethel, Bethel.

NP5/63/7B – Cais ol-weithredol i gadw paneli haul wedi ei gosod ar do adeilad amaethyddol. Defaidty, Cwmtirmynach.

NP5/63/L248A - Adeiladu estyniad unllawr i'r tŷ ac adeiladu garej unllawr ar wahân. Llys Mynach, Frongoch.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

Materion Ariannol.

Ffurflen Archwiliad Blynnyddol.

Adroddodd y clerc bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynnyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon copi o'r ffurflen i'r archwilydd mewnol, UHY Hacker Young

Derbyniwyd ad-daliad TAW o £325.78

Yswiriant.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y clerc wedi diweddarau gwerth eiddo'r Cyngor a chytunwyd eu bod yn gywir gyda man newidiadau. Trafodwyd y tri phris a dderbyniwyd a chytunwyd i dderbyn pris cwmni Came & Company.

Cytunwyd hefyd i dalu rhent cae chwarae Frongoch i Gyngor Gwynedd.

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Macmillan a Thŷ'r Eos. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall

Crwbiau Cyflymder ar y ffordd heibio'r Cae Chwarae yn Llandderfel.

Roedd Cyngor Gwynedd wedi ail osod y defnydd coch ar wyneb y ffordd ond nid oedd mor effeithiol â'r math blaenorol. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i drafod y mater.